Rhagair

Ar ôl cyfnod ymgynghori ffurfiol, rydym yn falch o allu cyflwyno'r Datganiad Polisi a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hwn, sef *Cynllun i Fynd i'r Afael â Chlefyd Arennol yng Nghymru.*

Gwelwyd dull arloesol a blaengar o ddatblygu gwasanaethau arennol ers amser maith yng Nghymru, ac mae wedi arwain y ffordd yn aml o ran rhaglenni dialysis, is-unedau dialysis a rhoddi a thrawsblannu organau. Cafwyd datblygiadau pwysig hefyd i wella gwasanaethau plant ym maes dialysis a thrawsblannu. Mae GIG Cymru yn awr yn wynebu'r her o ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau arennol yn wyneb poblogaeth sy'n heneiddio ac adnoddau terfynedig, a'r angen hefyd i sicrhau tegwch a dilyniant mewn gwasanaethau. Mae'r Datganiad Polisi a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hwn yn ceisio datblygu'r arferion da presennol, a hwyluso camau i rannu arferion arloesol ac effeithiol ledled Cymru.

Ni fuasai modd datblygu'r Datganiad Polisi a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol heb gyfraniad gan lawer o randdeiliaid, gan gynnwys, wrth gwrs, cleifion y gwasanaethau arennol a'u gofalwyr, aelodau Bwrdd Prosiect y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Arennol ac, yn benodol, yr Athro John Williams, y Neffrolegydd Ymgynghorol a'r Clinigydd Arennol Arweiniol ar gyfer y FfGC; rydym yn diolch i bob un ohonynt am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd.

Mae'r Datganiad Polisi yn seiliedig ar y themâu sydd wedi'u nodi yn *Cynllun Oes*, sef camau ychwanegol i atal clefydau a'u canfod yn gynnar, gwell mynediad a gwell gwasanaethau; mae'n ceisio sicrhau y bydd y gwasanaethau priodol yn cael eu darparu yn y man priodol ar yr adeg briodol.

Mae'r safonau sydd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn disgrifio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y dylai cleifion ddisgwyl eu cael ac maent yn ymdrin â phob agwedd ar y llwybr gofal ar gyfer y clefyd, gan roi pwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf a gwaith tîm amlddisgyblaethol. Bydd y safonau gofal ar gyfer plant yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o Brosiect Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r targedau ar gyfer gweithredu at ei gilydd yn adlewyrchu gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd ac maent yn rhychwantu'r cyfnod hyd at Fawrth 2008. Gan ddilyn yr un patrwm â *Cynllun Oes*, bydd fframwaith strategol pellach ar gyfer y cyfnod rhwng 2008 a 2011.

Oherwydd maint a chymhlethdod y dasg o drawsnewid gofal iechyd a chymdeithasol dros y degawd nesaf, rhaid rheoli'r newid hwnnw fel cyfanwaith. Mae *Cynllun i Fynd i'r Afael â Chlefyd Arennol yng Nghymru* yn dangos sut y bydd yn ofynnol i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau arennol dargedu eu camau gweithredu ar lefel genedlaethol a lefel leol, gan weithio drwy'r rhwydweithiau a sefydlir mewn partneriaeth. Gyda'n gilydd gallwn ymdrechu i sicrhau gwasanaethau o'r radd flaenaf a fydd yn gwella iechyd, lles ac ansawdd bywyd plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru sydd â chlefyd arennol, neu sydd mewn perygl o'i gael.

Mrs Ann Lloyd
Pennaeth, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Prif Weithredwraig, GIG Cymru

Dr Tony Jewell
Prif Swyddog Meddygol, GIG Cymru

Beth yw'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol?

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) "Cynllun i Fynd i'r Afael â Chlefyd Arennol" yn gynllun i ddatblygu gwasanaethau yng Nghymru i bobl sydd â chlefyd arennol.

Mae'n delio â phob agwedd ar ofal am gleifion, drwy bennu'r safonau gofal y dylai'r claf eu disgwyl. O fewn pob Safon mae ymyriadau allweddol. Mae'r ymyriadau allweddol hyn yn disgrifio'r gwasanaethau a'r systemau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael er mwyn bodloni'r Safonau.

Beth yw ei ddiben?

Prif nodau'r FfGC yw sicrhau ansawdd gofal arennol, drwy:

- well darpariaeth i atal clefyd arennol a'i ganfod yn gynnar;
- gofal a thriniaeth o ansawdd gwell ar gyfer y bobl hynny sydd â chlefyd arennol neu sydd mewn perygl o'i gael;
- gwasanaethau Therapi Amnewid Arennol (dialysis a thrawsblannu) effeithiol ac integredig;
- cynyddu nifer yr arennau sydd ar gael i'w trawsblannu drwy hybu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, drwy gofrestru rhoddwyr organau a thrwy wella'r cyfathrebu rhwng ysbytai mewn cysylltiad â'r arennau sydd ar gael;
- datblygu rhwydwaith cymorth ar gyfer modelau gofal amgen gan gynnwys y cleifion hynny sy'n dewis peidio â dialysu;

Sut bydd yn darparu ar gyfer cyrraedd y safonau?

Bydd yn darparu ar gyfer cyrraedd y safonau drwy:

- bennu targedau gweithredu cenedlaethol sydd wedi'u gosod ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol, Comisiwn Iechyd Cymru, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a darparwyr eraill;
- diffinio'r ansawdd gofal sy'n adlewyrchu orau anghenion y plant, y bobl ifanc a'r oedolion hynny sydd â chlefyd arennol, neu sydd mewn perygl o'i gael;

- sicrhau y bydd yr holl gleifion a'u teuluoedd neu ofalwyr yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen ym mhob cyfnod o ofal, a thrwy eu helpu i ddewis rhwng y gwahanol driniaethau sy'n briodol;
- sicrhau bod gofal arennol ar gyfer yr holl gleifion yn cael ei ddarparu mewn cyfleusterau priodol a lleoliadau cyfleus gan y staff arbenigol mwyaf priodol;
- sicrhau bod gofal arennol yn seiliedig ar set o safonau y gellir eu mesur yn rheolaidd fel bod modd adolygu a chynnal ansawdd gofal, a'i wella os oes angen;
- sefydlu Rhwydweithiau Arennol a fydd yn cefnogi'r broses gomisiynu yn ogystal â'r gwaith o ddarparu ar gyfer cyrraedd y safonau hynny'n lleol. Mae comisiynu'n ymwneud â phennu, sicrhau a monitro gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn;

Trefn y FfGC

Mae'r FfGC yn cynnwys nifer o Safonau gwahanol ac mae pob un, heblaw Safon 1, wedi'i grwpio gyda'i gilydd mewn cyfres o Fodiwlau. Mae'r Safonau wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac fe'u defnyddir i fesur ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal.

Mae Safon 1 "Gofal i Bawb" yn safon gyffredinol sy'n disgrifio strwythur newydd ar gyfer darparu gwasanaethau arennol ledled Cymru.

Modiwl 1: Gofal i Blant a Phobl Ifanc (Safonau Plant 1 - 10)

Modiwl 2: Atal clefyd cronig yn yr arennau, ei ganfod yn gynnar a'i reoli ac atal a/neu reoli methiant arennol acíwt (Safonau 2 - 6)

Modiwl 3: Darparu Dialysis yn Effeithiol (Safonau 7 - 11)

Modiwl 4: Rhoi a Thrawsblannu Organau (Safonau 12 - 13)

Modiwl 5: Modelau Gofal Amgen (Safonau 14 - 17)

Yn gysylltiedig â phob Safon mae ymyriadau allweddol sy'n disgrifio sut y cyrhaeddir y Safon honno.

Safon 1 - Gofal i Bawb

Mae Safon 1 yn disgrifio strwythur sylfaenol, sy'n cynnwys rhwydweithiau arennol a fydd yn dod â chynrychiolwyr at ei gilydd o blith pawb sydd â diddordeb mewn gwasanaethau arennol, gan gynnwys y cleifion eu hunain. Bydd y rhwydweithiau hyn yn arwain ac yn monitro'r gweithredu ar safonau'r FfGC, i ddarparu gwasanaeth arennol integredig o ansawdd uchel ledled Cymru.

Nod y safon hon yw sicrhau y bydd cleifion yn cymryd rhan yn llawn wrth wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal eu hunain, gan weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd gwasanaethau arennol yn cael eu cynllunio, eu trefnu a'u darparu mewn modd sy'n seiliedig ar anghenion cleifion a'u teuluoedd.

Modiwl 1:

Gofal i Blant a Phobl Ifanc

Datblygwyd y Modiwl hwn er mwyn sicrhau na fydd plant sydd â methiant arennol acíwt, clefyd cronig yn yr arennau a methiant arennol sefydledig yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd eu hoed, eu maint, eu dibyniaeth, lle maent yn byw, eu hamgylchiadau teuluol neu gymdeithasol neu am fod rhai gwasanaethau wedi'u cynllunio er mwyn diwallu anghenion oedolion. O fewn y modiwl hwn mae 10 safon sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac maent yn ychwanegol at y safonau a bennwyd ar gyfer oedolion yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hwn.

Safon Plant 1 dyma'r safon gyffredinol sy'n diffinio sut y trefnir gwasanaethau arennol plant yng Nghymru a sut y darperir gofal cleifion drwy ganolbwyntio ar y plentyn a'r teulu.

Safon Plant 2 mae'n nodi dulliau o ganfod clefyd arennol yn gynnar a'i atal. Mae hefyd yn disgrifio sut y gellir lleihau cymhlethdodau a chynnydd y clefyd drwy fonitro a rheoli problemau'n gynnar.

Safon Plant 3 mae'n ymdrin â'r modd i adnabod a rheoli methiant arennol acíwt. Y nod yw sicrhau'r gyfradd oroesi uchaf posibl i gleifion a'r adferiad mwyaf posibl ar weithrediadau arennol mewn babanod a phlant sydd â methiant arennol acíwt neu sydd mewn perygl o'i gael.

Safon Plant 4 mae'n nodi fframwaith i baratoi plant a phobl ifanc sydd â methiant arennol sefydledig (a'u teuluoedd) ar gyfer therapi amnewid arennol. Bydd hyn yn rhoi modd iddynt ddeall yn llawn yr holl ddewisiadau sydd ar gael ac yn eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau gyda chymorth tîm arbenigol. Byddant wedyn yn gallu dewis y driniaeth sy'n fwyaf addas iddynt yn feddygol ac yn fwyaf cydnaws â'u hanghenion a'u hamgylchiadau teuluol.

Safon Plant 5 mae'n nodi strategaeth i sicrhau'r mynediad a'r effeithiolrwydd mwyaf posibl ar gyfer gwasanaethau trawsblannu.

Safon Plant 6 mae'n ymdrin â dialysis a'r dull mwyaf effeithiol o'i ddarparu ar gyfer plant drwy amlhau'r buddion o ddialysis a lleihau ei effeithiau negyddol ar y plentyn a'i deulu.

Safon Plant 7 mae'n nodi'r imiwneiddiadau a'r meddyginiaethau y mae eu hangen ar blant sydd â chlefyd arennol. Bydd yr ymyriadau'n sicrhau y bydd y meddyginiaethau y mae ar blant eu hangen yn cael eu rhagnodi a'u rhoi mewn modd diogel ac effeithiol.

Safon Plant 8 mae'n diffinio'r gofynion ar gyfer cludiant a theithio i dderbyn gwasanaethau er mwyn galluogi plant i gael mynediad cyfartal, gyda'u teuluoedd, ym mhle bynnag maent yn byw, i ofal arennol arbenigol.

Safon Plant 9 mae'n delio â'r materion sy'n ymwneud â chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n dewis peidio â dialysu neu'n rhoi'r gorau i ddialysu, a rhai sydd â salwch terfynol drwy:

- Ddarparu fframwaith a fydd yn rhoi modd i gynnig gwybodaeth a chymorth priodol i blant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr fel y gellir gwneud penderfyniad i beidio â dialysu os yw hynny er y budd gorau i'r plentyn.
- Sicrhau y bydd plant sydd â methiant arennol sefydledig nad ydynt yn derbyn dialysis yn dal i gael gofal priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu gan wasanaethau arbenigol a hefyd yn y gymuned.
- Sicrhau, os bydd dialysis yn mynd yn faich corfforol neu seicolegol annioddefol, neu os bydd triniaeth o'r fath yn mynd yn ddibwrpas, y caiff ei dynnu'n ôl mewn modd agored a moesegol ac, o dan yr amgylchiadau hynny, y bydd plant

a'u teuluoedd neu ofalwyr yn cael cymorth seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol priodol, y byddant yn deall beth fydd yn digwydd yn y dyfodol a pha gymorth ymarferol sydd ar gael iddynt yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

- Sicrhau bod plant sydd â methiant arennol sefydledig sydd yng nghyfnod terfynol eu salwch yn cael mynediad i ystod o wasanaethau i sicrhau bod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol y plant a'u teuluoedd wedi'u diwallu'n effeithiol.

Safon Plant 10 mae'n diffinio dull esmwyth ac effeithlon o bontio rhwng gofal pediatrig a gofal mewn gwasanaethau arennol oedolion mewn oedran sy'n briodol i'r plentyn, rhwng 16 a 19 blwydd oed.

MODIWL 2:

Atal clefyd cronig yn yr arennau, ei ganfod yn gynnar a'i reoli ac atal a/neu reoli methiant arennol acíwt

Mae Modiwl 2 yn delio ag atal clefyd cronig yn yr arennau, ei ganfod yn gynnar a'i reoli (safonau 2 - 4) ac atal a/neu reoli methiant arennol acíwt (safonau 5-6). Y prif nod yw arafu cynnydd y clefyd ac atal neu leihau cymhlethdodau.

Mae Safonau 2 - 4 yn gyson â Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol eraill y mae eu safonau'n effeithio ar gleifion sydd â chlefyd arennol. Yn yr un modd, bydd rhai sy'n gofalu am gleifion sydd â chyflyrau neu glefydau eraill, fel clefyd y galon neu ddiabetes, yn gallu gwneud defnydd o'r safonau arennol hyn.

Mae Safonau 5 a 6 yn canolbwyntio ar atal methiant arennol acíwt, neu ei ganfod yn gynnar. Eu hamcan yw sicrhau'r gofal mwyaf priodol am gleifion sydd â methiant arennol acíwt, a hynny mewn amgylchedd priodol.

Safon 2 mae hon yn darparu fframwaith i ganfod y bobl hynny yn y gymuned sydd mewn perygl o gael clefyd arennol. Mae'n pennu dull o ganfod y peryglon hynny a'u lleihau.

Safon 3 mae'r safon hon yn ymwneud â chanfod cleifion sydd â chlefyd arennol yn gynnar fel y gellir eu harchwilio'n briodol a threfnu cynllun ar gyfer eu gofal hirdymor.

Safon 4 mae'r safon hon yn canolbwyntio ar y cleifion sydd â chlefyd arennol sefydledig gyda'r amcan o arafu cynnydd y clefyd. Mae hefyd yn nodi cynllun i ganfod cymhlethdodau clefyd arennol yn gynnar a dull o'u trin neu eu lleihau.

Safon 5 mae'n nodi ymyriadau a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd o gael Methiant Arennol Acíwt.

Safon 6 mae'n diffinio'r gofal ar gyfer cleifion sydd â methiant arennol acíwt. Ei hamcan yw sicrhau'r cyfraddau adfer a goroesi uchaf posibl ar gyfer y claf a'r aren.

MODIWL 3:

Darparu dialysis yn effeithiol

Mae'r modiwl hwn yn ymwneud â darparu dialysis yn effeithiol ac yn diffinio'r gofal ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael neu sydd ar fin cael dialysis.

Ar gyfer y cleifion hynny sydd ar fin cael dialysis, mae'n pwysleisio'r angen i addysgu a rhoi gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd am y penderfyniadau y bydd yn rhaid iddynt eu gwneud ynghylch eu triniaeth.

Mae'n hollbwysig cynllunio dialysis yn ofalus fel y gellir sicrhau'r ansawdd gofal a'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

Safon 7 mae'n sicrhau y bydd yr holl unigolion sydd ar fin cael dialysis yn cael y gofal gorau er mwyn lleihau cynnydd a chymhlethdodau eu clefyd, a'u bod yn gallu dewis ar sail gwybodaeth am y therapi mwyaf priodol.

Safon 8 mae'n sicrhau y bydd cleifion sydd â methiant arennol acíwt yn cael mynediad yn rhwydd i'r rhaglen dialysis o'u dewis, drwy greu mynediad fasgwlaidd neu beritoneol parhaol mewn da bryd.

Safon 9/10 mae'n sicrhau bod pob math o ddialysis peritoneol neu hemodialysis ar gael i gleifion fel y gellir sicrhau'r ansawdd bywyd gorau posibl a'r cyfraddau goroesi uchaf posibl.

Safon 11 mae'n sicrhau y bydd yr holl gleifion sy'n derbyn hemodialysis yn cael mynediad i gyfleuster ac i system gludiant sy'n sicrhau'r amseroedd teithio byrraf posibl gyda'r amcan o gael teithiau unffordd o 30 munud neu lai ar gyfartaledd.

MODIWL 4:

Rhoi a Thrawsblannu Organau

Mae nifer yr arennau sydd ar gael i'w trawsblannu wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hynny'n ganlyniad yn rhannol i'r gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ffyrdd, ac yn dangos llwyddiant y ddeddfwriaeth ar wregysau diogelwch a helmedau damwain. Oherwydd hynny, rhaid rhoi strategaethau gwahanol ar waith i sicrhau y bydd mwy o organau ar gael ar gyfer trawsblannu. Mae hynny'n cynnwys rhai i sicrhau mwy o roddion gan bobl fyw ac i ofalu bod y nifer mwyaf posibl o arennau ar gael o gyrff cleifion marw.

Oherwydd datblygiadau newydd mewn arferion meddygol, bu gwelliannau mawr hefyd yn nhechnegau trawsblannu organau, rheolaeth ar ôl llawdriniaeth a hefyd yn y dewis o gyrffuriau gwrthimiwnedd sydd ar gael.

Safon 12 mae'n ymwneud yn bennaf â sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o arennau o'r ansawdd gorau ar gael ar gyfer trawsblannu.

Safon 13 mae'n sicrhau bod cleifion sy'n cael trawsblaniad aren yn derbyn gofal o'r safon orau posibl i sicrhau'r canlyniad gorau i'r trawsblaniad.

MODIWL 5:

Modelau gofal amgen

Mae Modiwl 5 yn nodi safonau gofal ar gyfer y cleifion hynny sydd un ai'n dewis peidio â derbyn dialysis neu sy'n analluog i gael dialysis oherwydd eu cyflwr meddygol. Mae ar gleifion angen llawer iawn o gefnogaeth pan ofynnir iddynt benderfynu a ydynt yn dymuno cael dialysis a rhaid rhoi darlun clir iddynt o'r math o ofal a gânt, pa un a ydynt yn dewis dialysu neu beidio.

Safon 14: mae'n sicrhau y bydd claf nad yw'n dymuno cael dialysis yn penderfynu ar hynny drwy gael cefnogaeth briodol a gwybodaeth ddigonol.

Safon 15 mae'n sicrhau y bydd cleifion nad ydynt yn derbyn dialysis yn dal i gael gofal priodol gan wasanaethau ysbyty arbenigol a hefyd gan wasanaethau yn y gymuned.

Safon 16 mae'n sicrhau, os bydd dialysis yn mynd yn rhy anodd i'r claf, yn gorfforol neu'n seicolegol, y bydd yn gallu dewis rhoi'r gorau i'r driniaeth, os yw'n dymuno. Os nad yw dialysis o fudd i'r claf bellach, tynnir y driniaeth honno'n ôl mewn modd agored a moesegol. Mae'n hollbwysig, dan amgylchiadau o'r fath, y bydd cleifion a'u teuluoedd a/neu ofalwyr yn cael yr holl gymorth y mae arnynt ei angen fel y gallant ddeall beth fydd yn digwydd yn y dyfodol a pha gefnogaeth a gânt, un ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

Safon 17 mae'n sicrhau y bydd cleifion sydd â methiant arennol sefydledig, sydd yng nghyfnod terfynol eu salwch, yn cael mynediad i wasanaethau a fydd yn caniatáu iddynt farw gydag urddas mewn lle o'u dewis.